# Defnydd Llywodraeth Cymru o ddata staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn casglu ystod o ddata am staff addysg uwch a graddedigion o brifysgolion yn y DU yn flynyddol. Mae'r data hyn wedyn yn cael eu rhoi i lywodraethau'r DU a chyrff cyllido addysg uwch i gefnogi eu gwaith o ran rheoleiddio a chyllido darparwyr. Hefyd, mae gwybodaeth sy'n codi o'r data yn cael ei chyhoeddi fel ystadegau dienw swyddogol ac mewn sawl fformat hygyrch i'w defnyddio gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion (gan gynnwys darparwyr addysg uwch, ymchwilwyr academaidd, myfyrwyr, cwmnïau preifat, cyrff proffesiynol, y wasg a'r cyfryngau).

Mae HESA yn cyhoeddi hysbysiad casglu, yn esbonio sut y mae data yn cael eu casglu a'u prosesu. Nid yw'r datganiad hwn yn ceisio ail-greu hysbysiad casglu HESA, yn hytrach mae'n esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a gesglir gan HESA ar staff.

**Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan HESA?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cael data gan HESA at staff a gyflogir gan ddarparwyr addysg uwch y DU. Mae peth o'r data a roddir gan HESA i Lywodraeth Cymru yn ddata personol a/neu ddata categori arbennig, fel y'i diffinnir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

**Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r data a geir gan HESA?**

Mae data HESA yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd gan Lywodraeth Cymru. Fe'u defnyddir i gyhoeddi ystadegau ynghylch addysg uwch yng Nghymru ac i ymateb i geisiadau am ddata a dadansoddiadau gan randdeiliaid neu aelodau o'r cyhoedd. Cyhoeddir unrhyw ystadegau neu ymatebion i geisiadau am ddadansoddiad yn ddienw. Mae hyn yn golygu nad oes modd adnabod unigolion.

*Dadansoddi niferoedd staff*

Defnyddir data HESA i gyhoeddi ystadegau ar weithgarwch staff addysg uwch yng Nghymru ac i ddarparu dadansoddiad pan geisir hynny gan randdeiliaid neu'r cyhoedd. Mae nifer y staff a gyflogir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cael ei ddadansoddi yn flynyddol, yn ôl newidynnau sy'n cynnwys:

- sefydliad cyflogi
- math o gontract (ee. academaidd neu anacademaidd);
- math o gyflogaeth (amser llawn neu ran-amser);
- canolfan gost yr adran westeia (hy. maes pwnc eang);
- nodweddion cydraddoldeb (ee. oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd);
- y gallu i ddysgu yn Gymraeg;

- domisil.

*Y Gymraeg mewn Addysg Bellach*

Defnyddir data HESA hefyd i ddadansoddi, fel mater o drefn, y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn addysg uwch, yn enwedig nifer yr aelodau o staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd yn erbyn targedau o ran niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio niferoedd penodol o gredydau yn Gymraeg. Mae hyn yn rhan o flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru o ran strategaeth y Gymraeg.

*Rhannu data at ddibenion dadansoddi ac ymchwil*

Rhennir data HESA gyda chontractwyr trydydd parti sy'n dadansoddi data neu'n gwneud ymchwil neu werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Efallai y caiff sefydliadau ac ymchwilwyr eraill ddata HESA dienw, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb rhannu data ffurfiol yn ei le pan fyddwn yn rhannu data HESA gyda thrydydd parti. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r trydydd parti lofnodi cytundeb cyfrinachedd mewn perthynas â'r data, i ddangos bod ganddynt weithdrefnau diogelu gwybodaeth digonol. Bydd copïau o'r data yn cael eu dinistrio pan ddaw'r amserlen ar gyfer y cytundeb rhannu data i ben. Ni allant ddefnyddio'r data am unrhyw reswm arall heblaw'r rheswm y maent wedi cytuno iddo. Mae holl gopïau trosglwyddo data yn cael eu logio a'u cofnodi.

**Enwau Cyswllt**

Ystadegydd
E-bost: Post16Education.Stats@llyw.cymru

I wybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10  3NQ
Dedataprotectionofficer@llyw.cymru

Er mwyn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF
029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Hafan | ICO (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)